Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Beach House Fun Club**

**St Thomas's Church House**
**Russell House**
**Y Rhyl**
**LL18 3DA**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

03/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:* *psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Beach House Fun Club

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Samantha Elie<br>Louise McCabe-Allen |
| Lleoedd cofrestredig | 48 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 20 Chwefror 2024 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, dim ond y thema llesiant y gwnaethom ei hystyried yn fanwl y tro hwn.

Caiff safbwyntiau a diddordebau'r plant eu gwerthfawrogi a gweithredir arnynt. Maent yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac yn mynd at y staff yn hawdd. Mae'r plant yn rhyngweithio'n briodol â'u ffrindiau a gyda'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Maent yn dangos diddordeb ac yn ymgysylltu â'u profiadau chwarae a dysgu. Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth mewn ffordd addas.

Mae'r staff yn darparu gofal mewn ffordd gynnes a chyfeillgar ac yn canmol y plant ac yn gyson am eu hymdrechion. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach drwy'r amser.

Mae'r amgylchedd yn lân ac yn groesawgar. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siŵr bod teganau a chyfarpar ar gael i'r plant sy'n briodol i'w hoedran. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol.

Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ei reoli mewn modd effeithiol. Nid ydynt yn sicrhau y caiff gwelliannau eu cynnal. Mae angen gwneud gwelliannau sylweddol er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau a chyrraedd y safonau.

## Llesiant

Mae'r plant yn aml yn cyfathrebu'n hyderus gan fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried.

Mae'r plant yn mwynhau cyflwyno eu hunain a dangos yr hyn y maent yn hoffi chwarae ag ef. Er enghraifft, gwnaeth plentyn siarad am ei fand gwallt a chwarddodd gan ddweud ei fod yn 'furry and tickly'. Roedd y plant eraill yn mwynhau trafod y cerbydau tegan gwahanol, gan ddweud, 'I like playing racing'. Yn ystod amser byrbryd, gwnaeth y plant geisiadau cwrtais am ragor o ffrwythau, a gwnaeth y staff roi'r rhain iddynt mewn modd amserol.

Mae'r plant yn setlo'n gyflym am eu bod yn cael eu cyfarch gan staff cyfeillgar. Maent yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd a gwnaethant ddangos i ni sut maent yn golchi eu dwylo cyn amseroedd bwyd.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n briodol â'u ffrindiau a gyda'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Maent yn mwynhau'r agwedd gymdeithasol ar amseroedd bwyd ac yn eistedd yn aeddfed wrth y bwrdd. Mae'r plant yn gwrtais ac maent yn ymarfer defnyddio moesau da. Maent yn dysgu i rannu a chymryd eu tro yn addas. Er enghraifft, rhannodd ffrindiau'r offer yn yr hambwrdd dŵr a gwnaethant gymryd tro i ddefnyddio'r pipedau bach i dynnu dŵr a llenwi'r cynwysyddion siâp cwch gwahanol. Gwnaethant gymryd eu tro i ddringo ar y cyfarpar a rhannu'r deunyddiau crefft.

Mae'r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig. Er enghraifft, cafodd ffrindiau lawer o hwyl yn trefnu'r teganau meddal yng nghornel y cartref ac yn chwarae cuddio o dan y blancedi. Mae'r plant yn mwynhau datblygu eu dychymyg yng nghornel y cartref gan ddefnyddio amrywiaeth o nwyddau cartref wedi'u hailgylchu i ddynwared siop. Roedd ffrindiau'n cerdded o gwmpas yr ardal chwarae gyda throli siopa gan ddewis y gwrthrychau a'r teganau roeddent yn eu hoffi orau. Mae'r plant yn meithrin eu dyfeisgarwch mewn ffordd briodol. Er enghraifft, wrth chwarae yn yr awyr agored, gwnaethant weithio gyda'i gilydd i lenwi teiar wedi'i ailgylchu â hen ddillad a gwnaethant esbonio mai hwn oedd eu peiriant golchi. Roedd plentyn yn mwynhau gwneud marciau gan ddefnyddio amrywiaeth o sialciau ac roedd yn ymarfer ysgrifennu rhifau ar y wal.

Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth mewn ffordd addas. Maent yn gwneud eu dewisiadau eu hunain adeg byrbryd ac yn gweini eu hunain yn dda. Wrth chwarae yn yr awyr agored, mae'r plant yn dyfalbarhau i bedlo treiciau a gwella eu sgiliau cydbwyso wrth gerdded dros rwystrau. Mae'r plant yn gwneud y rhan fwyaf o bethau drostynt eu hunain gydag anogaeth briodol gan y staff.

## Gofal a Datblygiad

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r staff yn gwerthfawrogi ymdrechion y plant ac yn dathlu eu cyflawniadau. Maent yn rhoi gofal mewn ffordd garedig a chynnes. Mae'r staff yn trefnu profiadau chwarae a dysgu addas i'r plant.

Mae'r staff yn darparu byrbrydau a phrydau iach a gall y plant ddewis llaeth neu ddŵr i'w yfed. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo, ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn briodol. Mae'r staff yn annog y plant i fod yn egnïol yn yr awyr agored er mwyn datblygu eu sgiliau corfforol yn yr awyr iach.

Mae'r staff yn cofnodi presenoldeb dyddiol y plant a gallant nodi nifer y plant sy'n bresennol, yn unol â'u hoedran. Mae'r staff yn cofnodi eu presenoldeb eu hunain yn gywir. Fodd bynnag, nid oes gan y person â chyfrifoldeb na'r staff ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel. Dangoswyd cofnodion electronig wedi'u cwblhau o ddamweiniau a digwyddiadau i ni, ond nid yw pob un o'r rhain yn rhoi adroddiad cywir o'r hyn a ddigwyddodd. Mae'r staff yn cyflwyno'r ffurflenni electronig hyn i rieni / gofalwyr er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ac er mwyn iddynt eu cydnabod. Fodd bynnag, nid yw'r person â chyfrifoldeb a'r staff yn rhannu'r wybodaeth hon â'r holl rieni / gofalwyr bob amser pan fyddant yn casglu eu plentyn o'r lleoliad. Nid yw'r staff bob amser yn rhoi cyfle i rieni / gofalwyr drafod y digwyddiad ar lafar.

Nid yw'r person â chyfrifoldeb na'r staff wedi cynnal eu dealltwriaeth, a gafodd ei gwella'n flaenorol, o nodi peryglon yn yr asesiadau risg er mwyn sicrhau eu bod yn goruchwylio'r plant yn wyliadwrus bob amser. Er enghraifft, nid oedd staff a ddynodwyd i ofalu am grŵp penodol o blant yn ymwybodol bod plentyn yn eu gofal wedi gadael y safle. Nid yw'r person â chyfrifoldeb yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ynghylch pwy y maent wedi'u dynodi i ofalu amdanynt bob dydd. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y plant ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn groesawgar. Maent yn sicrhau bod adnoddau wedi'u hailgylchu ac adnoddau cynaliadwy ar gael yn hwylus i'r plant er mwyn meithrin eu sgiliau synhwyraidd a'u chwilfrydedd ymhellach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ardal ddynodedig ar gyfer eitemau personol y plant, ac mae hyn yn creu ymdeimlad o berthyn.

Er bod asesiadau risg cyffredinol ar waith ar gyfer y safle, gweithgareddau a gwibdeithiau, nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y person â chyfrifoldeb a'r staff yn rhoi'r rhain ar waith yn effeithiol i sicrhau y caiff y plant eu cadw'n ddiogel bob amser.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siŵr bod yr ardal chwarae awyr agored yn drefnus ac yn cynnwys dewis o gyfarpar ac adnoddau er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau corfforol a chydsymud y plant.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi llwyddo i gynnal y gwelliannau a wnaed yn ystod yr arolygiad blaenorol i sicrhau canlyniadau gwell i'r plant. Nid ydynt yn rheoli'r lleoliad na'r tîm o staff yn effeithiol.

Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys y wybodaeth ofynnol ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar rieni / gofalwyr am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Nid yw'r polisïau a'r gweithdrefnau a ddiweddarwyd yn ddiweddar yn rhoi adlewyrchiad cywir o sut mae'r lleoliad wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Nid yw'r personau cofrestredig yn rheoli'r staff yn effeithiol. Nid ydynt yn gwneud yn siŵr bod y staff yn diogelu ac yn hyrwyddo lles y plant ac yn eu cadw'n ddiogel bob amser. Nid yw'r personau cofrestredig yn sicrhau bod y person â chyfrifoldeb yn llwyr ymwybodol o'i rôl a'i chyfrifoldebau o ran rheoli'r lleoliad o ddydd i ddydd. Mae hyn oherwydd bod y personau cofrestredig wedi methu â goruchwylio ymchwiliad mewnol i ddigwyddiad difrifol â gofal, cymhwysedd a medrusrwydd digonol. Nid ydynt wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth wedi'i chasglu er mwyn rhoi unrhyw newidiadau gofynnol i asesiadau risg sydd eisoes yn bodoli ar waith. Yn ogystal, methodd y personau cofrestredig â hysbysu AGC am y digwyddiad hwn mewn modd amserol. Roedd y personau cofrestredig wedi cyflwyno adroddiad diogelu i'r Awdurdod Lleol ac i AGC, yn seiliedig ar yr adroddiad gan y person â chyfrifoldeb. Nid oedd y person â chyfrifoldeb wedi cymryd adroddiadau llawn gan y staff a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad ac nid oedd y personau cofrestredig wedi cwestiynu unrhyw sylwadau anghyson. Nid oedd yr adroddiad hwn yn gofnod cywir a ddarparwyd i asiantaethau proffesiynol allanol ac nid oedd yn rhoi cofnod cywir o'r digwyddiad a'r niwed posibl yr oedd y plentyn yn ei wynebu. Nid oedd y personau cofrestredig wedi sicrhau bod unrhyw gamau a gymerwyd yn dilyn y digwyddiad wedi'u cofnodi i ddangos eu hymrwymiad i ddiogelwch, nodi achos sylfaenol y digwyddiad a gwneud yr addasiadau angenrheidiol er mwyn atal digwyddiadau tebyg rhag digwydd. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y plant ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 9 | Rhaid i'r personau cofrestredig sicrhau'r angen i ddiogelu'r plant, hyrwyddo eu lles a'u cadw'n ddiogel bob amser a darparu gofal dydd â gofal, cymhwysedd a medrusrwydd digonol. Rhaid i'r personau cofrestredig sicrhau bod y person â chyfrifoldeb yn addas ar gyfer y rôl o reoli'r ddarpariaeth gofal dydd a'i fod yn cyflawni'r gofynion. | Newydd |
| 20 | Rhaid i'r personau cofrestredig sicrhau eu bod yn darparu'n briodol ar gyfer lles yr holl blant a'u bod yn eu goruchwylio er mwyn sicrhau y cânt eu cadw'n ddiogel. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| **Arferion Gorau** |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Datblygu hyder y staff er mwyn iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson drwy gydol y dydd er mwyn helpu i ddatblygu defnydd a dealltwriaeth y plant o'r iaith. |

### A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/06/2024